



Polisi Graddau a Bennir gan y Ganolfan (fersiwn dysgwyr a rhieni)



Enw'r Ganolfan: Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin	Rhif y Ganolfan: 68220
Mabwysiadwyd y Polisi gan y Corff Llywodraethol ar 18/3/2021:	
Dyddiad adolygu'r polisi:	

DULL ASESU AR GYFER CYMWYSTERAU YN 2021
YSGOL GYFUN GYMRAEG BRO MYRDDIN
Polisi Asesiadau a Bennir gan y Ganolfan

Rhan 2: Polisi Asesiadau a bennir gan y ganolfan Ysgol Bro Myrddin 2021

Enw'r Ganolfan: Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin	Rhif y Ganolfan: 68220
Mabwysiadwyd y Polisi gan y Corff Llywodraethol: 18/3/21	Dosbarthwyd y Polisi i staff: 22/3/21
Aelod o staff â chyfrifoldeb am y Polisi:	Mr Euryn Madoc-Jones

1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae'r Polisi yn amlinellu sut y bydd yr ysgol, fel canolfan arholi, yn defnyddio'r 'Canllawiau ar Drefniadau Amgen ar gyfer TGAU Cymeradwy, AS a Safon Uwch' a ddarperir gan Gymwysterau Cymru, y rheolydd arholiadau, i helpu i benderfynu graddau yn 2021.
- 1.2 Mae'r polisi yn berthnasol i gymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch sy'n cael eu rheoleiddio yng Nghymru. Ar gyfer yr ychydig iawn o gymwysterau y tu allan i'r cylch gwaith hwn, ac a reoleiddir gan Ofqual, bydd yr ysgol yn defnyddio'r canllawiau perthnasol i'r pynciau hynny, fel arfer rhai Lefel 1-3.
- 1.3 Ym mis Tachwedd 2020, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg na fyddai cyfres arholiadau haf ar gyfer myfyrwyr sy'n cymryd TGAU, lefelau UG na Safon Uwch yn 2021. Ar Ionawr 20fed 2021, cadarnhawyd y byddai'r cymwysterau hyn yn cael eu dyfarnu gan ddefnyddio Graddau a Bennir gan y Ganolfan. Mae hyn yn golygu y byddai canolfannau arholi unigol, fel ysgolion a cholegau, yn pennu'r graddau gwirioneddol a ddyfarnwyd ar gyfer pob cymhwyster.
- 1.4 Trwy rannu ei dull, mae'r ysgol yn ceisio cynnig eglurder a hyder i fyfyrwyr, staff a theuluoedd. Ar ben hynny, mae'n darparu trosolwg o'r penderfyniadau y bydd athrawon yn eu gwneud; sut y bydd athrawon yn gwneud y penderfyniadau hyn; a nodi'r dystiolaeth y bydd athrawon yn ei defnyddio i gefnogi'r broses benderfynu.

2. Graddau a Bennir gan y Ganolfan

- 2.1 Gradd a Bennir gan y Ganolfan yw'r radd a ddyfernir gan yr ysgol, fel canolfan arholi, ar sail cyrhaeddiad a ddangoswyd ym meysydd cynnwys y cymhwyster y mae myfyrwyr wedi gallu eu cwblhau yn ystod y cyfnod astudio nid y rhannau hynny nad ydynt wedi gallu eu cwblhau oherwydd amgylchiadau gwahanol.
- 2.2 Ar gyfer pob cymhwyster, bydd athrawon yn defnyddio Fframweithiau Asesu CBAC sy'n cynnwys disgrifyddion ar gyfer graddau allweddol i gefnogi dosbarthiad cywir y dyfarniadau. Rhaid i bob gradd a ddyfernir gan yr ysgol gael ei hategu gan dystiolaeth gadarn i ddangos cyrhaeddiad myfyriwr ar draws themâu a sgiliau allweddol. Bydd y rhain yn amrywio fesul cymhwyster.
- 2.3 Ni fydd yn bosibl nac yn cael ei ganiatáu i athrawon, na'r ysgol, geisio cyhoeddi Gradd a Bennir gan y Ganolfan yn seiliedig ar botensial myfyriwr. Bydd gofyn i athrawon gymhwyso eu barn broffesiynol a phenderfynu a yw'r wybodaeth a'r sgiliau a ddangosir yn cwrdd â'r safon arferol ar

gyfer gradd benodol. Rhaid cadw mewn cof yr hyn y mae CBAC wedi ei awgrymu o ran y dystiolaeth fyddai'n ddelfrydol a'r esiamplau mae CBAC wedi ei roi yng nghyd-destun llwybrau amrywiol er mwyn dangos dealltwriaeth o'r Amcanion Asesu.

- 2.4 Wrth bennu graddau, bydd gofyn i'r ysgol lunio barn 'ffit orau'. Mae hyn yn golygu nad yw'n ofynnol i fyfyrwyr ddangos pob agwedd ar ddisgrifiydd gradd i gael y radd; dylid dyfarnu gradd i fyfyrwyr sy'n cefnogi tystiolaeth o gyrhaeddiad ar draws digon o gynnwys, o fewn y cymhwyster penodedig, fel y penderfynir gan CBAC; a gallant gyflawni'r un graddau trwy arddangos gwahanol gyfuniadau o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth. Mae hyn yn sicrhau bod cryfderau mewn rhai meysydd yn gwrthbwysu diffygion mewn eraill. O ganlyniad, gellir dyfarnu'r radd 'ffit orau'.
- 2.5 Lle nad oes tystiolaeth ddigonol, neu lle mae tystiolaeth yn awgrymu bod cyrhaeddiad yn is na'r hyn sy'n ofynnol o'r radd isaf ar gyfer cymhwyster (h.y. gradd G ar lefel TGAU; gradd E ar Lefel UG / A) yna bydd myfyriwr yn cael Gradd U a bennir gan y Ganolfan.
- 2.6 Er na fydd y safon a ddisgwylir ar gyfer unrhyw radd benodol yn cael ei gostwng yn 2021, mae'r defnydd o Raddau a bennir gan y Ganolfan yn cydnabod y bydd maint y gwaith a gwblhawyd gan fyfyrwr yn llai nag mewn blynyddoedd blaenorol, oherwydd effaith barhaus yr argyfwng iechyd byd-eang. Felly, mae defnyddio Graddau a Bennir gan y Ganolfan yn ceisio sicrhau nad yw myfyrwyr dan anfantais anheg oherwydd y broses. Ar yr un pryd, fe'u cynlluniwyd i alluogi pob myfyriwr i symud ymlaen i'w cam nesaf o ddysgu a / neu gyflogaeth.

3. Sut y bydd Graddau a Bennir gan y Ganolfan yn cael eu penderfynu

- 3.1 Ar gyfer pob cymhwyster, mae CBAC wedi darparu Fframwaith Asesu Cymwysterau i staff pwnc, a fydd yn nodi'r gofynion i gefnogi'r dystiolaeth i lywio Gradd a Bennir gan y Ganolfan.
- 3.2 Cynhyrchir Gradd a Bennir gan y Ganolfan gan ddefnyddio tystiolaeth o waith a gwblhawyd gan fyfyrwr, gan ddefnyddio cynnwys y fanyleb wedi'i addasu.
- 3.3 Wrth bennu gradd, defnyddir y mathau canlynol o dystiolaeth ym mhob cymhwyster
 - 3.3.1 Cwestiynau wedi'u haddasu o gyn-bapurau byrddau arholi allanol
 - 3.3.2 Asesiadau nad ydynt yn arholiadau (gwaith Cwrs)
 - 3.3.3 Tystiolaeth ategol
 - a) Gall athrawon ddefnyddio tystiolaeth o gwestiynau cyn-bapur CBAC a gwblhawyd yn flaenorol, sydd â sicrwydd ansawdd allanol, gyda chynllun marcio cyhoeddedig, a lle cawsant eu cwblhau o dan amodau rheoledig; a
 - b) Asesiadau a gynhaliwyd cyn cyhoeddi dull y ganolfan e.e. Dim ond i helpu i gadarnhau dyfarniad y gellir defnyddio Ffug Arholiadau (a elwir hefyd yn 'Arholiadau Cyn-Gyhoeddus') a / neu waith arall a aseswyd. Fodd bynnag, efallai na fydd y dystiolaeth hon yn cael ei defnyddio ar ei phen ei hun i bennu graddau oherwydd, ar adeg ei chwblhau, mae'n bosibl na fyddai myfyrwyr wedi bod yn ymwybodol o bwysigrwydd y tasgau hyn. Mae hyn wedi'i gynllunio i sicrhau tegwch i bob myfyriwr.
 - c) Er mwyn edrych yn holistig ar waith y myfyriwr bydd yr athro yn edrych ar amrywiaeth o dystiolaeth gan gynnwys: Llyfr marcio staff (gwaith dosbarth / profion ayyb); barn broffesiynol am berfformiad dros draul amser; gwybodaeth am dargedau; awgrymiadau tystiolaeth CBAC; gwybodaeth goleuadau traffig Tachwedd a Mawrth 2021; gwybodaeth am haenau papur arholiadau sy'n cael eu

sefyll; canlyniadau arholiadau blaenorol yn y pwnc neu unedau blaenorol; perfformiadau ymarferol.

d) Os bydd adrannau yn dyfeisio tasgau er mwyn darparu tystiolaeth ar gyfer dyfarnu graddau bydd adrannau yn dilyn y Canllawiau Creu Asesiadau CBAC i sicrhau bod tasgau asesu yn gwneud y canlynol:

(i) bodloni'r egwyddorion allweddol asesu: tegwch hygyrchedd, dilysrwydd, dibynadwyedd

(ii) yn cael eu datblygu yn unol â Fframweithiau Asesu Cymwysterau CBAC

(iii) yn cael eu datblygu gan gyfeirio at y disgrifyddion graddau ar gyfer y cymhwyster a ddarperir a/neu feini prawf asesu/cynlluniau marcio manylebau cyfredol.

Bydd adrannau sy'n dyfeisio asesiadau yn mynychu hyfforddant ar lein ar seiliau asesiadau a chreu asesiadau sydd ar gael ar ran Haf 2021 ar wefan ddiogel CBAC. Byddant yn sicrhau'r defnydd o asesiadau i sicrhau cysondeb ar draws y cymhwyster i'r holl ymgeiswyr. Byddant yn dilyn canllawiau CBAC Creu Asesiadau Ganolfan wrth ddyfeisio tasgau i gefnogi graddau a bennir gan y ganolfan.

e) Bydd angen i bob adran i nodi sut y cafodd yr asesiadau eu cyflawni

- Wyneb yn wyneb
- O bell
- Lefel Goruchwyliaeth
- Hyd y dasg
- Unrhyw adborth a roddwyd
- Sicrhau mai gwaith yr ymgeisydd a welwyd
- Lleihau llên-ladrad
- Trefniadau a roddwyd i ddisgyblion ADY
- Cadw recordiadau
- Unrhyw hyfforddi ar gyfer staff

3.4 Bydd nifer y darnau o dystiolaeth sy'n ofynnol i bennu gradd yn amrywio fesul cymhwyster. Bydd athrawon yn sicrhau bod digon o gyfle i fyfyrwyr ddarparu tystiolaeth glir i ddangos cymhwysedd yn erbyn y themâu a'r sgiliau allweddol, fel y nodir ym mhob Fframwaith Asesu Cymwysterau CBAC. Efallai mai cymharol ychydig o ddarnau o dystiolaeth glir a fyddai'n ddigonol i ddangos cyrhaeddiad ar draws themâu allweddol trosfwaol ar gyfer llawer o gymwysterau. Bydd athrawon yn sicrhau nad yw cynhyrchu tystiolaeth yn creu dyblygu gwaith yn ddiangen nac yn gor-lwytho cydweithwyr na disgyblion.

3.5 Ni fydd y dystiolaeth a gynhyrchir yn cael ei chwblhau ar ffurf arholiad. Fodd bynnag, bydd myfyrwyr yn cynhyrchu gwaith o fewn amserlen benodol yn ystod gwersi i ymateb i'r amcanion asesu.

3.6 Mae gan yr Ysgol bolisiâu penodol ar gwblhau asesiadau di-arholiad, asesiadau dan reolaeth a gweithdrefnau gwaith cwrs. Er hynny, rhaid cofio bod y cyfnod clo yn gofyn am ychydig o hyblygrwydd yn y trefniadau hyn. Yr egwyddor yw y dylai bob athro fod yn hyderus bod y gwaith a gyflwynwyd yn adlewyrchiad o waith gwirioneddol y disgybl ac nid gwaith a gyflawnwyd gan eraill. Mewn achos o gonsyrn dylid cyfeirio'r mater at aelod o'r Uwch Dim Arwain ar gyfer ymchwil pellach. Bydd unrhyw ymchwiliad yn dilyn canllawiau **JCQ 'Suspected Malpractice-Policies and Procedures 1 September 2020 to 31 August 2021'**.

3.7 Bydd arweinwyr pwnc yn datblygu cynlluniau asesu unigol ar gyfer y cymwysterau y maent yn gyfrifol amdanynt, a fydd yn cael ei rannu a'i gymeradwyo gan Bennaeth y Ganolfan. Bydd y

cynlluniau hyn yn nodi pa ddarnau penodol o dystiolaeth a ddefnyddir yn erbyn 3.3.1; 3.3.2; a 3.3.3. Mae rheolwyr Llinell y pynciau wedi cynnal hyfforddiant ar y math o dystiolaeth i'w ddefnyddio ac wedi cymeradwyo gwaith yr adrannau.

- 3.8 Er mwyn sicrhau bod myfyrwyr yn deall sut mae graddau'n cael eu pennu a pha waith fydd yn cael ei ddefnyddio fel dystiolaeth, bydd yr adrannau yn cyhoeddi amserlen sy'n nodi pryd y bydd dystiolaeth yn cael ei gynhyrchu. Mae hyn hefyd yn sicrhau bod cynhyrchu gwaith yn cael ei ddosbarthu'n gyfartal dros yr amserlen benodol ac na fydd y broses yn gorlwytho dysgwyr ar unrhyw adeg benodol. Rhaid cadw mewn cof y byddai hyn, fel arfer yn gyfnod lle byddai arholiadau mewn blwyddyn arferol beth bynnag.
- 3.9 Fe fyddwn yn edrych ar **ddata perfformiad** adrannol dros draul amser gan ganolbwyntio ar ddata perfformiad 2017-2019 (tair blynedd), data perfformiad 2017-2020 (pedair blynedd) a data perfformiad 2020 ar ben ei hunain. Er nad yw data yn adrodd yr holl stori mae'n bwysig iawn ei ystyried yng nghyd-destun y perfformiadau sydd yn ddisgwyliedig yn hanesyddol. Gallwn fod yn hyderus yn y prosesau hyn gan eu bod wedi sicrhau tegwch a chanlyniadau cyson yn 2020 a dylai hynny fod yn wir am 2021 hefyd. Fe fydd hyfforddiant am hyn mewn HMS min nos a thrafodaeth unigol gyda phob adran yn deillio o hynny.
- 3.10 Fe fydd gofyn i adrannau i greu cynlluniau asesu adrannol ar gyfer y rheolwr llinell. Ym mhob pwnc yr hyn sydd wrth wraidd unrhyw asesu yw'r **Amcanion Asesu** (*Assessment Objectives*). Mae pob adran yn adnabod y rhain gan eu bod yn hanfodol i ddysgu effeithiol. Bydd adrannau yn adnabod darnau o waith, asesiadau, profion lle y bydd modd gweld y rhain a'u defnyddio ar gyfer dod i ddyfarniad ar gyflawniad. Yr egwyddor, fodd bynnag, yw y dylai penderfyniadau cael eu gwneud ar sail dystiolaeth 'holistig', nid darn o waith unigol, oni bai bod y dystiolaeth yn brin.
- 3.11 Dylid sicrhau bod dealltwriaeth a chytundeb adrannol am yr union waith / neu fath o waith fydd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer penderfynu gradd. Gall hyn olygu'r math o waith, math o asesiad oherwydd gall y cyfnod clo fod wedi amharu ar allu aelod o staff a disgyblion i gwblhau tasg benodol. Dylai'r tasgau fod yn gyson ac yn debyg o ran eu natur gan ganolbwyntio ar Amcanion Asesu penodol. Trwy wneud hyn bydd modd sicrhau tegwch waeth pa ddarn o waith sy'n cael ei ddefnyddio i dystiolaethu dealltwriaeth o'r Amcanion Asesu pwnc penodol hynny. Cyflwynwyd hyfforddiant am hyn i'r staff ar ddechrau mis Mawrth gan Mr Eurynd Madoc-Jones, sy'n brif Arholwr gyda CBAC gyda dros 20 mlynedd o brofiad.

4. Rolau a Chyfrifoldebau

- 4.1 Mae rolau a chyfrifoldebau penodol staff, ar ystod o lefelau, o ran cymwysterau yn aros yn ddigyfnewid i raddau helaeth â chyfresi arholiadau eraill. Fodd bynnag, ar gyfer dyfarniadau yn 2021, mae'r rolau a'r cyfrifoldebau canlynol yn berthnasol o ran pennu graddau
- 4.1.1 Bydd y Pennaeth yn gweithredu fel goruchwyliwr y broses ac yn danfon y canlyniadau i CBAC yng nghyd-destun ei rôl fel Pennaeth Canolfan Arholiadau. Bydd yn goruchwyllo'r broses sicrhau ansawdd mewnol ac allanol yn effeithiol. Bydd y Dirprwy Bennaeth, Mr Eurynd Madoc-Jones yn cynorthwyo'r broses hyfforddi yn sgil ei brofiad helaeth fel Prif Arholwr. Bydd y Pennaeth hefyd yn llofnodi datganiad Pennaeth y Ganolfan ar ddiwedd y broses lefel Ysgol.
- 4.1.2 Bydd Cadeirydd y Llywodraethwyr yn cadw gorolwg o'r drefn a chymeradwyo'r polisi.
- 4.1.3 Bydd y Swyddog Arholiadau yn gyfrifol am gofrestru disgyblion a rhannu gohebiaeth a ddaw o CBAC. Hi hefyd fydd yn hwyluso'r broses weinyddol a chysylltu gyda CBAC am

faterion gweinyddol y broses. Bydd hefyd yn hwylusydd y broses o wneud apeliadau ar lefel Ysgol ac i CBAC.

4.1.4 Bydd y Cydlynnydd ADY (fel CADY) wrth roi trefniadau mewn lle yn rhoi ystyriaeth lawn i'r canllawiau canlynol:

- Llyfr Trefniadau Mynediad ac Addasiadau Rhesymol 1 Medi 2020 i 31 Awst 2021.
- Hysbysiad i Ganolfannau – Cydlynwyr Anghenion Addysgol Arbennig ac aseswyr – Mehefin 2021

- Gwybodaeth atodol bwysig yn nogfen CBAC 'Canllawiau i bolisi canolfannau'

Bydd yn arwain cyfarfod gydag unigolion perthnasol ar y staff i drefnu 'trefniadau mynediad' ar gyfer bob unigolyn sydd â chofrestriad ar gyfer Haf 2021. Bydd hefyd yn cyfathrebu trefniadau mynediad gyda staff dysgu a chadw gorolwg o berfformiad disgyblion ADY. Bydd yn cydweithio gyda staff wrth weithredu asesiadau a sicrhau cefnogaeth briodol i ddisgyblion yn unol â threfniadau mynediad.

4.1.5 Bydd Penaethiad Adran / Arweinwyr Pwnc yn gyfrifol am greu cyfeiriad ar gyfer yr adran o ran y math o dystiolaeth i'w ystyried ac i sicrhau cysondeb wrth raddio trwy gynnal gweithgareddau safoni adrannol gyferbyn yr Amcanion Asesu a chwblhau'r trywydd papur priodol. Byddant yn rheoli'r broses o gadw tystiolaeth yn ddiogel gan gynnwys Cofnodion Penderfyniadau Dysgwyr. Bydd staff addysgu yn sicrhau bod tystiolaeth yn cael ei chasglu o fewn yr amserlen gyhoeddedig. Rhaid i athrawon wneud myfyrwyr yn ymwybodol o natur a meini prawf y dasg a osodwyd a sicrhau bod myfyrwyr yn deall pryd y bydd gweithgaredd yn cyfrannu at bennu gradd. Bydd staff addysgu yn casglu ac yn storio gwaith a gyflwynir yn ddiogel o dan glo. Bydd staff addysgu yn casglu ac yn storio gwaith a gyflwynir yn ddiogel. Byddant yn sicrhau bod addasiadau rhesymol ar gyfer myfyrwyr a nodwyd yn cael eu cyflawni. Bydd athrawon yn marcio gwaith a gyflwynwyd o fewn yr amserlenni y cytunwyd arnynt, a bennir gan arweinwyr pwnc.

Ni fydd athrawon yn rhoi cyfle i fyfyrwyr wella eu gwaith, ar ôl ei gyflwyno. Bydd athrawon yn gweithio gydag arweinwyr pwnc perthnasol i sicrhau bod myfyrwyr sydd â hawl i gael trefniadau mynediad, yn derbyn hynny.

4.1.6 Fe fydd pob pennaeth adran yn derbyn hyfforddiant ynghylch 'cadw tystiolaeth yn ddiogel' (yn dilyn yr un drefn sydd yn cael ei weithredu gyda gwaith cwrs ar hyn o bryd). Bydd cyfarwyddiadau yn cael ei roi mewn HMS min nos parthed 'trefniadau mynediad' a sut i ymdrin gyda materion o gam ymddwyn yng nghyd destun cyflwyno gwaith. Caiff staff hefyd hyfforddiant arfer dda wrth farcio a safoni gwaith gan ddilyn gweithdrefnau ffurfiol CBAC.

5. Prosesau Sicrhau Ansawdd

5.1 Yn unol ag arferion arferol, bydd CBAC yn ei gwneud yn ofynnol i brosesau mewnol gael eu cynnal i hyrwyddo cysondeb. Bydd yr ysgol yn ymgymryd â phrosesau sicrhau ansawdd, o fewn pynciau ac ar draws pynciau, i sicrhau bod y graddau a bennir yn ddilys, yn ddibynadwy ac yn deg, wrth geisio osgoi gwahaniaethu. Bydd yr ysgol yn sicrhau bod hyfforddiant yn cael ei ddarparu i'r holl staff i gefnogi hyn – darperir yr hyfforddiant hyn gan CBAC a Cymwysterau Cymru yn ogystal a gan yr ysgol ei hunain.

5.2 Mae prosesau cymedroli mewnol wedi'u cynllunio i sicrhau safonau da a cheisio sicrhau tegwch i bob myfyriwr. Mae hyn yn golygu sesiynau cymedroli a safoni gwaith a hynny yn cynnwys pawb o'r adran mewn sesiynau penodol a diwrnodau HMS. Cedwir tystiolaeth o'r prosesau hyn fel rhan o dystiolaeth o'r adran ar gyfer sicrhau ansawdd. Bydd staff yn derbyn hyfforddiant mewn arfer dda wrth safoni gwaith a dod i benderfyniadau gan Mr Euryn Madoc-Jones mewn sesiynau

min nos pwrpasol. Bydd hyn yn cynnwys sesiwn hyfforddiant ar arfer dda cyn mynd ati i farcio er mwyn sicrhau cysondeb ac arfer dda o ran prosesau sicrhau ansawdd (cymedroli a safoni).

5.2.1 Bydd arweinwyr pwnc yn sicrhau bod y sampl o waith wedi'i gymedroli yn cwmpasu'r sbectrwm llawn o raddau a'r holl athrawon sydd wedi asesu gwaith ac yn cynnwys ystod eang o ymgeiswyr o bob gallu a rheini gyda anabledd neu Anghenion dysgu Arbennig.

5.2.2 Bydd Arweinwyr Pwnc yn adolygu unrhyw anghysondebau.

5.2.3 Ar bob cam, bydd ffurflenni priodol wedi cael eu darparu gan CBAC yn cael eu cadw fel tystiolaeth i gefnogi'r radd derfynol. Fe fydd 'Cofnod Penderfyniad Dysgwyr' i **bob unigolyn** ym mhob un cymhwyster sydd â chofrestriad ar gyfer Haf 2021. Mi fydd y cofnod yn cynnwys:

- Manylion y dysgwyr unigol
- Manylion trefniadau mynediad / amgylchiadau personol
- Gradd a ddyfernir
- Cofnod o dystiolaeth

5.3 Mewn adrannau lle mae athrawon yn gweithio ar eu pennau eu hunain, bydd yr ysgol yn rhoi cyfle i dystiolaeth gael ei chymedroli, trwy ganolfan arall: Ysgol Maes y Gwendraeth ac neu Ysgol y Strade. Yn yr un modd, bydd angen datgan unrhyw staff sydd â gwrthdaro buddiannau (e.e. athro sy'n riant).

5.4 Yn dilyn yr hyfforddiant gan Mr Euryn Madoc-Jones bydd yr ysgol yn sicrhau bod gwaith yr holl staff sy'n asesu tystiolaeth yn cael ei gymedroli, fel rhan o sicrhau ansawdd mewnol. Pan fydd maint carfan arholiad yn is nag 20 yna bydd y garfan gyfan yn cael ei chymedroli. Ar gyfer samplau mwy, bydd yr ysgol yn sicrhau bod tystiolaeth yn cael ei ystyried o ystod o broffiliau myfyrwyr, o fyfyrwyr mwy galluog i'r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol; a'r myfyrwyr hynny sydd â nodweddion gwarchoddedig.

6. Cofnodi Penderfyniadau

6.1 Bydd yr ysgol yn cadw cofnod i ddogfennu'n glir y rhesymeg dros benderfyniadau gradd ar Gofnod Penderfyniad dysgwr

6.2 Bydd cofnodion penderfyniad yn manylu ar bwy asesodd y dystiolaeth a phryd; y penderfyniad a wnaed; nodi unrhyw addasiadau rhesymol neu ystyriaethau arbennig a gymhwysir; ac unrhyw addasiadau i benderfyniad yn ystod y broses.

7. Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a Diogelu Data

7.1 Wrth ddatblygu dull o ymdrin â graddau a bennir gan ganolfannau yn 2021, mae'r ysgol wedi cymryd camau i sicrhau ei bod yn cyflawni ei Dyletswydd Cydraddoldeb yn y Sector Cyhoeddus. Mae hwn yn ofyniad cyfreithiol ac mae'n rhan o Ddeddf Cydraddoldeb (2010), sy'n sicrhau sylw dyledus i'r angen i wneud hynny

7.1.1 Dileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth ac ymddygiad arall a waherddir gan Ddeddf Cydraddoldeb (2010);

7.1.2 Hyrwyddo cydraddoldeb a chyfle rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a'r rhai nad ydynt; a

7.1.3 Meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig perthnasol a'r rhai nad ydyn nhw.

- 7.2 Bydd y dystiolaeth a gesglir gan yr ysgol i gefnogi pennu graddau yn defnyddio deunyddiau safonedig, a gynhyrchir gan CBAC a deunyddiau pellach sy'n canolbwyntio ar Amcanion asesu'r pwnc.
- 7.3 Bydd yr ysgol yn sicrhau ei bod yn cwrdd â rheoliadau diogelu a phrosesu data.

8. Adolygiad o Brosesau Graddau ac Apeliadau Penderfynol y Ganolfan

- 8.1 ***Ar adeg ysgrifennu, nid oedd y broses o adolygu graddau canolfannau a'r prosesau apelio wedi'i chwblhau.***
- 8.2 Bydd myfyriwr nad yw'n fodlon ar ei radd yn gallu apelio yn ôl ei radd. Bydd tri cham i'r broses apelio
- 8.2.1 Mae Cam 1 yn cynnwys adolygiad canolfan o'r radd dros dro a bennir gan y ganolfan ar sail dyfarniad a / neu bod gwall gweithdrefnol wedi'i wneud
- 8.2.2 Bydd Cam 2 yn cynnwys apêl i CBAC ar y sail bod y dyfarniad y mae'r ganolfan wedi'i wneud yn afresymol a / neu bod gwall gweithdrefnol wedi'i wneud
- 8.2.3 Mae Cam 3 yn cynnwys cais i Gymhwyster Cymru am Wasanaeth Adolygu Gweithdrefnau Arholiad (EPRS) i adolygu a yw CBAC wedi dilyn y gweithdrefnau gofynnol.

9. Dysgu Proffesiynol

- 9.1 Gan weithio gyda Llywodraeth Cymru, Cymwysterau Cymru a CBAC, bydd yr ysgol yn sicrhau bod hyfforddiant priodol yn cael ei ddarparu i staff ar bob lefel er mwyn sicrhau bod y cynllun asesu, a'r prosesau cysylltiedig, yn cael eu gweithredu'n llawn (**Atodiad 3**).
- 9.2 Yn ogystal â darparu hyfforddiant ar y cynllun asesu a chymau gweithredu cysylltiedig i staff ar bob lefel, bydd yr ysgol yn adolygu ei rhaglen hyfforddi bresennol i helpu i reoli llwyth gwaith staff. Bydd hyfforddiant penodol ar osgoi rhagfarn anymwybodol wrth asesu gwaith yn cael ei ddarparu i'r holl staff sy'n ymwneud â marcio tystiolaeth.
- 9.3 Bydd staff a nodwyd hefyd yn mynychu hyfforddiant penodol ar faterion cydraddoldeb, gan gynnwys dyletswyddau'r sector cyhoeddus; rheoli gogwydd ymwybodol ac anymwybodol; prosesu data a diogelu data, gan gyfeirio'n benodol at hysbysiadau prosesu teg.

10. Ymgeiswyr Preifat

- 10.1 Nifer fach iawn o fyfyrwyr sy'n sefyll arholiadau fel ymgeiswyr preifat.
- 10.2 Mae'n annhebygol y bydd staff yr ysgol yn gallu dilysu gwaith ymgeiswyr preifat. Bydd ymgeiswyr preifat yn gallu gwneud cais i'r awdurdod lleol am drefniadau i gynnal asesiadau yn Haf 2021.

11. Cymhwyso ystyriaeth arbennig

- 11.1 Bydd yr ysgol yn cymhwyso dogfen ystyriaethau arbennig cyhoeddedig CBAC i'r myfyrwyr hynny sy'n cwrdd â'r meini prawf penodedig.
- 11.2 Fel sy'n safonol, efallai y bydd angen tystiolaeth ar yr ysgol i ddangos bod y myfyriwr yn cwrdd â'r meini prawf.

ATODIAD 2: Llinell Amser Dyddiadau Allweddol Canolfannau

Digwyddiad	Dyddiad
Bydd eich Ysgol neu goleg yn dweud wrthy ch sut y cewch eich asesu a'ch graddio ar gyfer eich cymhwyster	Erbyn y Pasg
Dylech gael addysgu wyneb yn wyneb a gellir cynnal rhai asesiadau ychwanegol	12 Ebrill – 28 Mai
Byddwch yn cael eich Graddau a Bennir gan y Ganolfan dros dro, a byddwch yn cael cyfle i ofyn i unrhyw un o'ch graddau gael eu hadolygu	Erbyn 25 Mehefin
Bydd eich ysgol neu goleg yn cyflwyno'r Graddau a Bennir gan y Ganolfan dros dro i CBAC	14 Mehefin – 2 Gorffennaf
Diwrnod Canlyniadau UG a Safon Uwch	10 Awst
Cewch gyfle i apelio yn erbyn eich canlyniad UG neu/a Safon Uwch i CBAC	10 Awst – 7 Medi
Diwrnod Canlyniadau TGAU	12 Awst
Cewch gyfle i apelio yn erbyn eich canlyniad TGAU i CBAC Cewch y cyfle i apelio i Cymwysterau Cymru am Wasanaeth Adolygu Gweithdrefnau Arholiadau (EPRS)	24 Awst – 21 Medi* Ar ôl y diwrnod canlyniadau

Trefn digwyddiadau Ysgol Bro Myrddin	Dyddiad
Yr ysgol yn rhoi gwybod i rieni a disgyblion sut y byddant yn cael eu hasesu	Erbyn y Pasg 2021
Dysgu wyneb yn wyneb yn ail ddechrau a'r cyfle i gynnal rhai asesiadau ychwanegol mewn gwersi gan ddilyn amserlen benodol	Mawrth 15 – Mai 28
Cyfnod i adrannau gwrdd er mwyn safoni yn fewnol ac ar draws adrannau	Sesiynau min nos – Mai 18 a Mai 25
Adrannau yn cwrdd i ddod i ganlyniad o ran y Graddau a Bennir gan y ganolfan dros dros a chwblhau Cofnod Penderfyniad Dysgwr	HMS Mai 28
UDA yn cwrdd i drafod y graddau ar draws yr ysgol gan gynnal trafodaethau adrannol	Mehefin 7 – 11
Disgyblion yn derbyn y graddau a bennir gan y Ganolfan dros dro a chyfle i ofyn am adolygiad	Mehefin 18
Cyfnod adolygiadau	Mehefin 18 – 29
Cyflwyno Graddau a bennir gan y ganolfan dros dro i CBAC	Mehefin 30
Diwrnod canlyniadau UG a Safon Uwch	Awst 10
Cyfle i ddisgyblion apelio yn erbyn eu canlyniad UG neu Uwch i CBAC	Awst 10 – Medi 7
Diwrnod canlyniadau TGAU	Awst 12
Cyfle i ddisgyblion apelio yn erbyn eu canlyniad TGAU i CBAC	Awst 24 – Medi 21
Cyfle i apelio i Gymwysterau Cymru am wasanaeth Adolygu Gweithdrefnau Arholiad (EPRS)	Awst 24 – Medi 21

ATODIAD 3: Llinell Amser Digwyddiadau Arweiniad a Hyfforddiant CBAC

Dyddiad	Digwyddiad
5ed Mawrth	Hyfforddiant wedi'i recordio ymlaen llaw: 'Sylfeini a chreu asesiad'
5ed Mawrth	Canllawiau ar 'Bolisi'r ganolfan ar asesu a Sicrwydd Ansawdd'
wyd 8fed Mawrth	Hyfforddiant wedi'i recordio ymlaen llaw: 'Ymagwedd y ganolfan at asesu ac Ansawdd Sicrwydd penderfyniadau graddio'
12fed Mawrth	Hyfforddiant: Cwestiwn ac Ateb Byw
15fed Mawrth	Proses apelio lefel uchel
wyd 15fed Mawrth	Fframweithiau Asesu Cymwysterau Terfynol gan gynnwys disgrifwyr gradd
wyd 15fed Mawrth	Canllaw Graddio ar gyfer canolfannau
wyd 15fed Mawrth	Deunyddiau asesu ar gyfer canolfannau
19eg Mawrth	Dyddiad cau mynediad
wyd 22ain Mawrth	Deunyddiau hyfforddi pwnc-benodol
19eg – 25ain Mawrth	Mae canolfannau'n cyflwyno polisiau Asesu a QA Mewnol i CBAC
22ain Mawrth	Hyfforddiant wedi'i recordio ymlaen llaw: 'Rhagfarn a gwrthrychedd anymwybodol'
25ain Mawrth	Hyfforddiant: Cwestiwn ac Ateb Byw
12fed Ebrill	Mae CBAC yn darparu adborth i ganolfannau ar eu polisiau
19eg Ebrill	Hyfforddiant wedi'i recordio ymlaen llaw: Gwneud dyfarniadau terfynol
22ain Ebrill	Dyddiad cau ffenestr newid ceisiadau
wyd 26ain Ebrill	Y broses apelio derfynol
26ain Ebrill	Hyfforddiant wedi'i recordio ymlaen llaw: 'Arfer dda wrth wneud penderfyniadau graddio terfynol a Sicrwydd Ansawdd'
5ed Mai	Hyfforddiant: Cwestiwn ac Ateb Byw
17eg Mai	Hyfforddiant wedi'i recordio ymlaen llaw: 'Cyflwyno Graddau a Bennir gan Ganolfan'
14eg Mehefin – 2il Gorffennaf	Ffenestr cyflwyno ar gyfer Graddau a bennir gan Ganolfan
21ain Mehefin – 12fed Gorffennaf	Sicrwydd Ansawdd CBAC 'Cofnodion penderfyniadau myfyrwyr a chanlyniadau cyffredinol'